YMGYNGHORIAETH

sbectrwm

CONSULTANCY

Ymchwil i sefyllfa gyfredol addysg cyfrwng Cymraeg myfyrwyr mewn colegau addysg bellach.

Cefndir

Mae cwmni Sbectrwm wedi ei gomisiynu gan Gomisiynydd y Gymraeg i gynnal yr ymchwil uchod. Mae'r holiaduron a ddanfonwyd at bob coleg addysg bellach a'r cyfweliadau a gynhelir gyda phrif swyddogion y colegau a swyddogion o gyrff sydd â chysylltiadau strategol â'r maes yn rhan o'r wybodaeth gefndirol y mae'r tîm ymchwil yn ei chasglu er mwyn cwblhau adroddiad i'r Comisiynydd ar sefyllfa gyfredol addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector.

Cyfrinachedd

Bydd y data a'r wybodaeth a gasglwn o'r holiaduron a'r cyfweliadau yn gymorth i'r Comisiynydd gael gorolwg o sefyllfa'r Gymraeg yn ein colegau addysg bellach. Nid yw'n fwriad gan y Comisiynydd i gyhoeddi'r adroddiad. Fodd bynnag, bydd yr adroddiad yn cyfeirio at golegau unigol er mwyn nodi arferion da a meysydd sydd angen eu gwella.

Nid yw'n fwriad i ddyfynnu unrhyw unigolyn a fydd yn cymryd rhan yn y cyfweliadau na chyfeirio at unrhyw sylw neu ddatganiad o'u heiddo fydd yn arwain at adnabyddiaeth o'r person neu'r personau hynny. Bydd unrhyw wybodaeth o natur sensitif yn cael ei gadw'n gyfrinachol a bydd modd i'r sawl sy'n cael eu cyfweld nodi nad ydynt am i darddiad yr wybodaeth gael ei ryddhau.

Bydd yr holl ddata sy'n cael ei gasglu fel rhan o'r arolwg yn cael ei gadw'n ddiogel gan gwmni *Sbectrwm* yn unol â Deddf Diogelu Data (1998).

Datganiad

Cytunaf/Ni chytunaf i gael fy nghyfweld ar gyfer yr ymchwil uchod dan yr amodau a nodwyd.

Enw'r Cyfranogydd: **Dyddiad:**

Llofnod y Cyfranogydd:

Enw'r Ymchwilydd: Cefin Campbell **Dyddiad**: 24.2.16

Llofnod yr Ymchwilydd: Cefin Campbell

Tŷr Gât, Gelli Aur, Caerfyrddin, SA32 8NG

Ffôn/Tel: 01558 668663 • Symudol/Mobile: 07877 141202 • E-bost/E-mail: swyddfa@sbectrwm.com